

Welsh Sheep Genetics Programme

Phase 2



Advancing the performance of Welsh hill and maternal flocks with genetic improvement



Phase 2 of the Welsh Sheep Genetics Programme (WSGP) supports the uptake of genetic improvement within the Welsh sheep flock. Performance and pedigree recording is beneficial for improving economic and environmental efficiencies on farm.

Improving livestock genetics offers long-term gains. The process involves developing a largescale robust dataset including pedigree and performance traits, and genomic data.

A unique dataset was developed as part of the Hill Ram Scheme (delivered by HCC) and Phase 1 of the WSGP (delivered by Farming Connect) and will be built upon further in Phase 2 – a new phase of the programme which extends genetic improvement activity to even more Welsh upland and hill sheep farmers.

The aim of this work is to support breeders to improve productivity, efficiency, and environmental performance, whilst also enabling them to make informed, evidence-based breeding decisions.

This new phase will deliver transition support for existing participants while opening the programme to new flocks. Farmers will benefit from practical, technical, and financial assistance to harness the power of cutting-edge genetic tools, such as Genomic Estimated Breeding Values. The genetic data gathered will strengthen industry benchmarking and support long-term business planning.

Phase 2 will also see the development of robust key performance indicators, tailored farm-level action planning, and an ambitious portfolio of research projects designed to drive innovation across the sector.

It will focus on stimulating demand for performance-recorded rams among commercial flocks and strengthening the supply, presentation, and marketing capability of breeder flocks.



The programme's objective is to support a more productive, sustainable and competitive Welsh red meat industry.

Phase 2 of WSGP is funded by the Welsh Government and delivered by HCC.



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Rhaglen Geneteg Defaid Cymru (WSGP) Cam 2



Rhoi hwb i berfformiad diadelloedd mynydd a mamol Cymru drwy welliant genetig



Mae Cam 2 Rhaglen Geneteg Defaid Cymru (WSGP) yn cefnogi'r defnydd o welliant genetig o fewn diadell ddefaid Cymru. Mae cofnodi perfformiad a phedigri yn fuddiol ar gyfer gwella effeithlonrwydd economaidd ac amgylcheddol ar ffermydd.

Mae gwella geneteg da byw yn cynnig enillion hirdymor. Mae'r broses yn cynnwys datblygu set ddata gadarn ar raddfa fawr sy'n cynnwys nodweddion pedigri a pherfformiad, a data genomig.

Datblygwyd set ddata unigryw fel rhan o'r Cynllun Hyrddod Mynydd (HCC) a Cham 1 o'r WSGP (Cyswllt Ffermio) a chaiff ei datblygu ymhellach yng Ngham 2 – cyfnod newydd o'r rhaglen sy'n ymestyn gweithgaredd gwella genetig mwy o ffermwyr defaid ucheldir a mynydd Cymru.

Nod y gwaith hwn yw cefnogi bridwyr i wella cynhyrchiant, effeithlonrwydd a pherfformiad amgylcheddol, tra hefyd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau bridio gwybodus, sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Bydd y cyfnod newydd hwn yn darparu cefnogaeth bontio i'r rhai sydd eisoes yn cymryd rhan a hefyd yn agor y rhaglen i ddiadelloedd newydd. Bydd ffermwyr yn elwa o gymorth ymarferol, technegol ac ariannol i fanteisio ar bŵer dyfeisiau genetig arloesol, fel Gwerthoedd Bridio Amcangyfrifedig Genomig. Bydd y data genetig a gesglir yn cryfhau meincnodi'r diwydiant ac yn cefnogi cynllunio busnes hirdymor.

Bydd Cam 2 hefyd yn gweld datblygiad dangosyddion perfformiad allweddol cadarn, cynllunio gweithredu wedi'i deilwra ar lefel fferm, a phortffolio uchelgeisiol o brosiectau ymchwil wedi eu cynllunio i hybu arloesedd ar draws y sector.

Bydd yn canolbwyntio ar ysgogi'r galw am hyrddod â chofnodion perfformiad ymhlith diadelloedd masnachol a chryfhau cyflenwad, cyflwyniad a marchnata diadelloedd magu.



Amcan y rhaglen yw cefnogi'r diwydiant cig coch yng Nghymru i fod yn fwy cynhyrchiol, cynaliadwy a chystadleuol.

Mae Cam 2 o'r WSGP yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i ddarparu gan HCC.



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government